# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Bevris Support Ltd**

**Prospect House**
**Factory Road**
**Glannau Dyfrdwy**
**CH5 2QJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Bevris Support Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Bevris Support Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Hydref 2020 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael cymorth o safon i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Maent yn cael dewis llawn a rheolaeth dros eu gofal, gan gynnwys y staff sy'n rhoi cymorth iddynt, ac maent yn chwarae rhan wrth hyfforddi staff i ddeall eu profiad bywyd. Drwy gymorth y staff, mae pobl yn mwynhau cymdeithasu â'i gilydd, eu ffrindiau a'u teulu a gwneud pethau'n sy'n eu gwneud nhw'n hapus. Mae'r cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau y mae modd eu cyflawni. Maent yn gynhwysfawr, gan ystyried anghenion y bobl yn llawn, eu cryfderau a sut i ddatblygu'r rhain. Mae'r staff yn cael hyfforddiant da ym mhob maes i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae gan Bevris ei hyfforddwr hyfforddedig ei hun ac mae'n ceisio hyfforddiant arbenigol gan weithwyr iechyd proffesiynol er mwyn bod yn sicr bod y staff yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Mae'r gwasanaeth yn buddsoddi yn ei staff, gan gydnabod yn llawn werth gweithlu profiadol, gwybodus a bodlon. Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn elwa ar barhad da mewn staff; maent wedi meithrin cydberthnasau cyfarwydd, llawn ymddiriedaeth â nhw. Mae gan y darparwr gwasanaeth fesurau sicrhau ansawdd niferus ar waith i wirio bod gwasanaeth o ansawdd yn cael ei ddarparu, sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau. Maent yn llwyr ymwybodol o'r hyn sy'n gweithio'n dda ac yn mynd ati i geisio'u gwella.

## Llesiant

Caiff y bobl ddewis a rheolaeth lawn ynghylch yr hyn sydd o bwys iddynt. Caiff cynlluniau personol eu cyd-lunio bob amser gyda phobl wrth wraidd eu darpariaeth cymorth. Maent yn cymryd rhan wrth ddylunio'r cynllun gofal, yn cymryd rhan wrth ddewis a recriwtio'r staff a fydd yn eu cefnogi a hyfforddiant y staff hyn i sicrhau eu bod yn deall eu profiad yn dda. Mae'r gwasanaeth yn mynd ymhell i sicrhau bod pobl yn deall yn llawn pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael a gallant ddefnyddio'r rhain i gyflawni eu canlyniadau.

Mae'r bobl yn iach ac yn weithgar ac yn cael cymorth effeithiol i gyflawni eu canlyniadau llesiant, eu cynnal a'u datblygu. Maent yn cyflawni gweithgareddau maent yn eu mwynhau ac yn gwneud penderfyniadau am bethau newydd i'w gwneud. Mae llesiant corfforol a meddyliol y bobl yn rhan hanfodol o'r cynllun gofal, ac mae'r staff cymorth yn gwybod yn union sut mae'n rhaid iddynt gefnogi pobl i gadw'n iach ac yn hapus. Mae'r adolygiadau rheolaidd yn sicrhau bod y cynlluniau yn ddeinamig a'u bod yn adlewyrchu dewisiadau a dymuniadau cyfredol yr unigolyn.

Caiff y bobl eu cefnogi'n llwyddiannus i gynnal a defnyddio'u cysylltiadau â'r gymuned leol yn llawn, ymweld ag amwynderau a darpariaethau gofal iechyd cymunedol, defnyddio cyfleusterau hamdden a chwaraeon a mynychu canolfannau dydd a gweithdai. Mae'r bobl a'u teulu wrth wraidd cynllun gofal yr unigolyn;  caiff y canlyniadau dymunol i'r ddau barti eu hystyried a chaiff eu safbwyntiau ar y gwasanaeth eu gwrando arnynt bob amser. Mae'r gwasanaeth yn brofiadol iawn wrth weithio gyda theuluoedd pobl ag anghenion penodol ac mae'n cydnabod pwysigrwydd diogelu a hyrwyddo cydberthnasau â theulu a ffrindiau. Mae'r gwasanaeth yn trefnu digwyddiadau llesiant i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu teuluoedd a staff cymorth.

Mae'r cynlluniau gofal yn ystyried yn llawn fywyd cymdeithasol y bobl a ble yr hoffent ymgysylltu ag eraill. Caiff y bobl eu cefnogi i wneud y pethau y mae eu cymheiriaid yn eu mwynhau yn y gymuned fel cael cinio mewn caffis, gwneud rhywfaint o waith gwirfoddol, mynd i'r sinema a gwylio sioe. Os mai un o'r canlyniadau yw meithrin annibyniaeth, caiff y bobl eu cefnogi i ddysgu sgiliau byw bob dydd fel cyllidebu, siopa a thasgau domestig. Mae'r bobl yn goresgyn ofnau a phryderon cymdeithasol gyda chymorth addfwyn a chyson.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth gan fod yr holl staff cymorth yn cael hyfforddiant mewn diogelu a rhwydd hynt i'r polisïau a'r gweithdrefnau ysgrifenedig cysylltiedig. Maent hwy neu eu teulu ac eiriolwyr yn gwybod y gallant hefyd gysylltu â rhywun yn y tîm rheoli pryd bynnag y byddant yn dymuno, unrhyw adeg o'r dydd.

## Gofal a Chymorth

Mae systemau ardderchog ar waith i gael yr ystod lawn o safbwyntiau a gwybodaeth am unigolyn cyn i'r gwasanaeth gadarnhau y gall ei gefnogi i gyflawni ei ganlyniadau. Caiff adnodd sgrinio ei ddefnyddio ar gyfer yr atgyfeiriadau cychwynnol a ddyluniwyd i ddangos yn gyflym a ellir cynnig gwasanaeth, ac yna caiff asesiad o anghenion gofal mwy cynhwysfawr ei gynnal. Mae hwn yn fanwl ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am bob canlyniad i fod yn sicr o'r adnoddau sy'n ofynnol, yr hyfforddiant ar gyfer staff, pwy fydd yn gyfrifol am hyn a'r ffactorau i'w hystyried i sicrhau cydnawsedd y staff. Mae'r darparwr yn hyderus iawn y gall y gwasanaeth ddarparu'n union yr hyn sy'n ofynnol pan gaiff ei gytuno.

Mae'r cynllun gofal yn fanwl iawn, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn canolbwyntio ar gryfderau pobl, yn ogystal â'i anghenion. Mae'r bobl wrth wraidd y gofal a gânt i bob pwrpas, gan ddylunio'u cynlluniau gofal eu hunain, sy'n ystyried eu personoliaeth, eu priodweddau, eu dymuniadau a chanlyniadau a'u sefyllfa bresennol. Mae'r adolygiadau bob tri mis hefyd yn gynhwysfawr iawn ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio'n dda, ble y gallai fod angen newidiadau ac unrhyw ganlyniadau newydd. Mae crynodebau misol a ffurflenni effaith gadarnhaol yn cydnabod ac yn dathlu cyflawniadau a chanlyniadau. Mae rheolwr cymorth arbenigol y gwasanaeth yn hwyluso adolygiad mwy o faint o fewnbwn y tîm o staff, gyda gweithdai i edrych ar beth sydd wedi newid ac i ystyried unrhyw feysydd i ddatblygu staff. Caiff pob dogfen sy'n gysylltiedig â'r gofal ei hadolygu i sicrhau cywirdeb parhaus.

Darperir cymorth effeithiol iawn i'r bobl sy'n eu helpu i gyflawni eu canlyniadau a datblygu rhai newydd. Gwnaethom siarad â pherthnasau sy'n disgrifio'r gofal fel *‘excellent’* a *‘a life saver, second to none’.* Mae'r bobl yn hapus iawn a gwnaethant rannu enghreifftiau o ble y gwnaeth y cynnydd ragori ar ganlyniadau a ble y caiff effeithiau cadarnhaol eu gwneud i'r teulu cyfan. Mae'r staff yn rhoi cymorth yn ôl pwysau'r unigolyn, er enghraifft, mynd â nhw i gwrdd â'r unigolyn sy'n trin gwallt a'i wylio er mwyn magu ei hyder i wneud apwyntiad. Disgrifiodd un rhiant yr *‘in depth groundwork’* a gynhaliwyd wrth baratoi'r gwasanaeth i'r unigolyn; datblygodd y gwasanaeth weithdrefnau effeithiol a diogel i ddarparu'r gofal, gwnaethant roi tîm o staff cydnaws a phrofiadol at ei gilydd i ddarparu'r cymorth, ac yna rhoesant hyfforddiant arbenigol i'r holl staff. Mae'r bobl yn hyderus iawn â'r cymorth ac maent yn ymddiried yn y gwasanaeth; maent yn credu mai athroniaeth yr asiantaeth yw gwneud eu gorau glas.

Mae iechyd meddwl a llesiant emosiynol yn nodwedd bwysig o gynlluniau gofal a gwelsom fod digwyddiadau llesiant yn cael eu trefnu gan y gwasanaeth, gan wahodd pobl, eu teuluoedd a'r staff. Mae bwletin newyddion y gwasanaeth yn rhoi cyngor iechyd i bawb. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff pobl eu cefnogi i fynd i apwyntiadau a chael canllawiau

iechyd i wella'u canlyniadau. Mae cynlluniau rheoli risg clir yn galluogi pobl i fyw eu bywyd fel y dymunant, ac yn ddiogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr gwasanaeth drefniadau llywodraethu effeithiol iawn sy'n sicrhau y caiff gwasanaeth o ansawdd ei ddarparu sy'n cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau. Cynhelir sawl haen o wiriadau ansawdd gan wahanol bobl, er mwyn sicrhau cywirdeb ac ysgogi ansawdd. Cynhelir hapwiriadau yng nghartrefi'r bobl i sicrhau bod y staff yn dilyn gweithdrefnau cywir ac yn bodloni disgwyliadau'r cwmni. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bresennol yn y swyddfa yn rheolaidd er mwyn i bobl wybod pwy ydyw. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn eistedd ar fwrdd cynghori mewn cyfleuster addysg lleol; maent yn trafod heriau a chyfleoedd, yn rhannu materion a syniadau cyffredin. Mae cofnodion cyfarfod yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol wedi mynegi pwysigrwydd gweithwyr gofal er mwyn deall profiad y bobl a gefnogir ganddynt. Mae Bevris yn defnyddio technoleg realiti rhithwir er mwyn dangos i'r staff sut brofiad o'r byd y mae pobl gydag awtistiaeth yn ei gael. Yn ogystal, maent yn annog y bobl a gefnogir ganddynt i fod yn rhan o hyfforddiant staff i rannu eu profiad bywyd.

Mae'r darparwyr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn ardderchog drwy ddefnyddio prosesau sicrhau ansawdd parhaus a thrwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd y bobl wrthym fod rheolwyr yn ymweld â nhw ac yn cysylltu dros y ffôn a thrwy e-bost i sicrhau eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth. Caiff holiaduron sy'n ceisio safbwyntiau eu dosbarthu i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu teulu a'u staff. Mae'r adroddiadau adolygiad o ansawdd y gofal a gwblheir gan yr Unigolyn Cyfrifol yn dangos eu bod yn gwybod beth sy'n gweithio'n dda ac maent yn chwilio am ffyrdd o wella ymhellach.

Mae'r bobl a'r staff yn canmol athroniaeth Bevris o wneud y gorau dros bawb bob amser. Mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu polisi drws agored ac mae'r staff yn dod i mewn i'r swyddfa i sgwrsio am faterion personol a gwaith unrhyw bryd maent eisiau. Mae'r staff yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi gan dîm rheoli sydd wir yn ymddiddori ynddynt. Maent yn cael nodyn o ddiolch ar ben-blwydd y dyddiad y gwnaethant ddechrau yn y gwasanaeth. Enwebodd Bevris un aelod o'r staff i gael gwobr yn seremoni ‘gweithiwr cymorth cenedlaethol y flwyddyn’ a daeth yn ail. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnal ei seremoni wobrwyo ei hun er mwyn cydnabod cyflawniadau a gwaith caled y staff.

Caiff yr holl staff eu cyflogi gan ddilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn, proses sefydlu drwyadl a hyfforddiant helaeth. Mae'r hyfforddiant yn cwmpasu ystod eang o feysydd sy'n berthnasol i anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae sesiwn fyfyriol dilynol yn chwilio am ffyrdd o wella hyfforddiant. Mae gan y gwasanaeth hyfforddwr hyfforddedig mewn cymorth

ymddygiad cadarnhaol sy'n ymroi i chwilio am ffyrdd o ddatblygu ei wybodaeth ei hun a gwybodaeth y timau. Dywedodd y staff wrthym na chaiff unrhyw gost ei harbed mewn perthynas â'u hyfforddiant ac er mwyn iddynt gamu ymlaen yn eu gyrfa.  Cânt eu hannog i awgrymu meysydd ar gyfer hyfforddiant pellach. Maent yn cael adborth adeiladol pan gânt eu goruchwylio a chaiff eu cyflawniadau eu gwerthfawrogi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/03/2024